Eitem 3

**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-(L)-LA-0064-15

David Melding AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Hydref 2015

Annwyl David,

Yn fy llythyr atoch, dyddiedig 5 Mawrth, addewais roi gwybodaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn ag is-ddeddfwriaeth ar gyfer trethi lleol sy'n dibynnu ar Ddatganiad yr Hydref 2015.

Fel y gwyddoch, efallai, ar 25 Tachwedd mae'r Canghellor i fod i gyhoeddi casgliadau'r Adolygiad o Wariant 2015.

Ar hyn o bryd, yr unig ddarn o is-ddeddfwriaeth ddibynnol yr wyf yn bwriadu ei chyflwyno mewn perthynas â threthi lleol yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016 ("Rheoliadau 2016"). Bydd y Rheoliadau hyn yn uwchraddio'r rhifau a ddefnyddir i gyfrifo cymhwysedd ar gyfer gostyngiad sy'n adlewyrchu'r newidiadau o ran costau byw a wneir i'r cyfrifiadau budd-daliadau lles, ac mewn gweithdrefnau cysylltiedig ar draws y DU.

Hefyd, mae nifer o ddiwygiadau technegol cymhleth y bydd angen eu hymgorffori yn Rheoliadau 2016 er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Mae rhai o'r diwygiadau hyn yn ymwneud â mesurau a gyhoeddwyd yng nghyllideb Gorffennaf Llywodraeth y DU, ac mae'r ddeddfwriaeth gymwys yn dal i gael ei hystyried gan Senedd y DU. Er bod fy swyddogion yn cynnal trafodaethau â'u cymheiriaid yn adrannau perthnasol y DU ynglŷn â'r diwygiadau hyn, mae posibilrwydd o hyd y gwneir newidiadau sylweddol yn ystod y broses seneddol. O ganlyniad, ni fydd yn bosibl rhoi drafft dibynadwy o Reoliadau 2016 i'r Pwyllgor erbyn 21 Tachwedd.

Er hynny, yr wyf yn rhagweld y dylai fod yn bosibl cyflwyno Rheoliadau 2016 erbyn 1 Rhagfyr a chan ystyried Toriad y Nadolig, mae dadl wedi ei threfnu yn y cyfarfod llawn yn unol â'r Rheolau Sefydlog, a hynny ar gyfer 19 Ionawr 2016. Mae hyn yn caniatáu digon o amser i sicrhau y gall Awdurdodau Lleol ymgorffori'r ffigurau wedi'u huwchraddio a'r diwygiadau technegol yn eu cynlluniau gostyngiadau mabwysiedig erbyn 31 Ionawr (sy'n ofyniad statudol). Gan fod dyddiad y ddadl lawn wedi'i rhaglennu i gydymffurfio â'r Gorchmynion Sefydlog, rwyf yn gobeithio na fydd hyn yn achosi unrhyw anawsterau sylweddol ar gyfer y Pwyllgor.

Bae Caerdydd Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line: 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0300 0604400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y ddwy flynedd flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gymorth gan y Pwyllgor i gyflwyno terfyn ar y cynnydd blynyddol yn Lluosydd y Gorchymyn Ardrethu Annomestig.  Oherwydd y lefelau presennol o chwyddiant, mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd y Canghellor yn cyhoeddi penderfyniad i roi terfyn ar Luosydd y Gorchymyn Ardrethu Annomestig yn Lloegr ar gyfer 2016-17.  Felly, am nawr, nid wyf yn rhagweld y bydd angen cyflwyno rheoliadau i roi terfyn ar y lluosydd ar gyfer Cymru.

Fodd bynnag, fel y nodais yn fy llythyr blaenorol, ni allwn ddiystyru'r posibilrwydd y bydd y Canghellor yn cyhoeddi polisïau y bydd rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb iddynt efallai drwy is-ddeddfwriaeth o fewn amserlenni cyfyng.  Gall peidio â gwneud hyn effeithio'n arwyddocaol ar economi Cymru.  Mae gan fy swyddogion berthynas waith effeithiol gyda'r Trysorlys a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.  Serch hynny, nid oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros gael ei hysbysu mewn da bryd o ran cynigion polisi posibl Llywodraeth y DU.  Ni fu unrhyw arwydd eto gan swyddogion Llywodraeth y DU ynghylch a fydd cyhoeddiad y Canghellor yn cynnwys unrhyw gynigion polisi a allai olygu y bydd angen gwneud is-ddeddfwriaeth ychwanegol mewn perthynas â Chymru.

Hefyd, oherwydd y cyhoeddiad hwyr am ganlyniad yr Adolygiad o Wariant, bydd Cyllideb Ddrafft Cymru a'r Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol yn cael eu cyhoeddi'n llawer hwyrach nag arfer.  Er bod hyn yn golygu heriau amseru sylweddol i Lywodraeth Cymru, i'r Cynulliad ac i Lywodraeth Leol ar y cyfan, yn baradocsaidd gallai'r oedi dilynol ynghylch y ddadl o ran y Setliad Llywodraeth Leol liniaru rhywfaint o’r pwysau amser fydd ar y Pwyllgor os bydd angen deddfwriaeth ychwanegol.

Os bydd angen y fath ddeddfwriaeth a fydd yn golygu hepgor gweithdrefnau craffu cyffredin y Cynulliad Cenedlaethol sy'n cynnwys cymorth y Pwyllgor, byddaf yn ysgrifennu atoch ar frys.  Os felly, byddaf yn darparu amlinelliad o'r ddeddfwriaeth arfaethedig a nodyn o'r amserlenni a'r cyfyngiadau posibl.  Hefyd, byddaf yn ysgrifennu atoch os bydd y sefyllfa o ran Rheoliadau 2016 yn newid.

Yn gywir,



**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services